Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gymraeg Gwenffrwd

Stryd Chwitffordd
Treffynnon
CH8 7NJ

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Gwenffrwd

Enw'r darparwr	Ysgol Gymraeg Gwenffrwd
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Y Fflint
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	123
Disgyblion o oedran ysgol statudol	94
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	15
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%)	14.9%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%)	55.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	7.4%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad penodi'r pennaeth	

Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad dechrau'r arolygiad	01/04/2025

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gadarn i'r ysgol sy'n rhoi blaenoriaeth glir ar hybu lles disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn diwallu anghenion llawer ohonynt yn bwrpasol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda yn eu dysgu a'u chwarae.

Mae gan staff berthynas weithio dda â'r disgyblion. Maent yn darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn briodol ac yn cefnogi llawer ohonynt i wneud cynnydd addas yn eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio dysgu ychydig o ddisgyblion yn ddigon rheolaidd.

Mae agweddau llawer o ddisgyblion at eu profiadau yn gadarnhaol ac maent yn mwynhau eu dysgu. Mae athrawon yn defnyddio ystod briodol o ddulliau holi i adalw dysgu blaenorol sy'n cadarnhau dealltwriaeth disgyblion yn fedrus. Ar brydiau, mae athrawon yn cynnig adborth defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu cefnogi i wneud gwelliannau buddiol i'w gwaith. Er hyn, nid yw'r adborth yn cefnogi disgyblion i wella eu dysgu yn ddigon cyson.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth i werthuso ansawdd y ddarpariaeth ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ychydig o'r cryfderau a meysydd i'w gwella. Nid yw'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon clir ar effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth addas o'u cyfrifoldebau.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion. Mae staff yn fodelau rôl ieithyddol effeithiol ac maent yn cefnogi disgyblion i gaffael medrau llafar cadarn dros amser. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda ac yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth eu dysgu a'u chwarae.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod gweithdrefnau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n glir ar effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion

A2. Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu dysgu yn rheolaidd

A3. Darparu gweithgareddau sy'n rhoi her gyson i ddisgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif arfarniad

Mae Ysgol Gymraeg Gwenffrwd yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n gosod hybu lles disgyblion fel blaenoriaeth amlwg. Mae arweinwyr wedi sefydlu amgylchedd dysgu gofalgar ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gânt. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau ac maent yn teimlo'n ddiogel wrth eu dysgu a'u chwarae yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn ymdrin â'i gilydd a staff yn briodol.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan dîm o staff ymroddgar ac maent yn cydweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu'r Gymraeg a hybu presenoldeb cyson disgyblion yn yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi dyrannu cyfrifoldebau arwain i staff yn briodol ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson yn cefnogi staff i ddatblygu eu harfer yn rheolaidd. Mae staff yn rhannu arferion effeithiol gydag ysgolion cyfagos yn achlysurol, fel trafod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i athrawon rannu eu profiadau â chydweithwyr proffesiynol eraill sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r arweinwyr yn briodol ac maent yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda. Maent yn cydweithio'n addas ag arweinwyr i fonitro a gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r llywodraethwyr yn defnyddio ystod gyfyng o dystiolaeth er mwyn adnabod ychydig o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon clir ar effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn adnabod meysydd pwysig i'w gwella yn ddigon da.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n cefnogi llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sydd ag ADY a'r rhai sy'n cael eu niweidio gan dlodi, i wneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd a digidol dros amser. Mae llawer yn siarad yn hyderus, yn dangos cariad at ddarllen ac yn ysgrifennu'n bwrpasol ar gyfer ystod briodol o ddibenion. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio ystod o ddulliau effeithiol wrth ysgrifennu at swyddogion y llywodraeth i'w perswadio i hybu datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r modd mae staff yn annog a chefnogi disgyblion i siarad Cymraeg. Mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn ac yn ymateb yn dda wrth siarad gyda chywirdeb addas wrth drin a thrafod eu gweithgareddau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o staff yn fodelau rôl ieithyddol da ac mae hyn yn hybu datblygiad medrau llythrennedd disgyblion yn briodol yn y ddwy iaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau rhifedd, a phan gânt y cyfle, maent yn cymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Cyfoethogir y ddarpariaeth gwricwlaidd gan ymweliadau addysgol pwrpasol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion a thanio eu dychymyg yn fwriadus; er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn ymweliad â Maes Awyr Manceinion fel sbardun i'w gwaith thema 'Taith'.

Mae staff wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth effeithiol. Mae agwedd at waith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol ac maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith ac yn dyfalbarhau'n dda am gyfnodau perthnasol. Mae'r profiadau dysgu yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn briodol. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio dysgu ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson.

Yn gyffredinol, mae staff yn defnyddio ystod briodol o ddulliau holi sy'n adalw dysgu blaenorol a chadarnhau dealltwriaeth disgyblion yn bwrpasol. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus ac yn eu cefnogi i feddwl yn ddyfnach am eu dysgu ac i ystyried eu camsyniadau yn effeithiol. Ar adegau, mae adborth gan athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn bwrpasol. Er hyn, nid yw'r adborth yn canolbwyntio'n ddigon effeithiol ar agweddau o waith y disgyblion sydd angen eu gwella yn ddigon penodol. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ystyried ac ymateb i adborth yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae trefniadau addas er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cymorth pellach a darperir ystod o raglenni cefnogi priodol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol ac yn monitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion yn ofalus. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a mae llais y disgybl yn amlwg yn y trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd ac adnabod y camau nesaf yn y dysgu. Mae bron bob disgybl sydd wedi ei adnabod ag ADY yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn dros amser.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion arwain ar agweddau pwysig o waith yr ysgol sy'n datblygu eu medrau pwysig fel cydweithio, cyfathrebu ac empathi yn llwyddiannus. Maent yn cymryd y cyfrifoldebau o ddifri ac yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a

gânt. Mae'r 'Mêts Grêt' a'r 'Ffrindiau Ffreutur' yn hybu lles a mwynhad y disgyblion ieuengaf yn llwyddiannus wrth eu cefnogi a chyd-chwarae gyda nhw yn ystod amseroedd egwyl.

Mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ystyried effaith pobl ar yr amgylchedd yn ofalus. Maent yn hybu gweithgareddau sy'n amddiffyn yr amgylchedd yn aeddfed; er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn uwchgylchu dillad ar gyfer sioe ffasiwn yr ysgol.

Mae cyfnodau cyd-addoli yn hybu datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn bwrpasol. Yn ystod y gwasanaeth boreol, er enghraifft, mae disgyblion yn myfyrio'n dawel wrth ystyried pobl a phethau sy'n werthfawr iddynt. Defnyddir y cyfnodau hyn i hybu medrau artistig disgyblion yn llwyddiannus wrth iddynt berfformio a chanu caneuon traddodiadol gydag angerdd a brwdfrydedd canmoladwy.

Mae staff yn trefnu ystod briodol o weithgareddau awyr agored sy'n hybu medrau datrys problemau ac annibynnol disgyblion yn bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r angen i feithrin eu lles corfforol ac emosiynol. Maent yn hyderus i ddefnyddio'r llecynnau pwrpasol o fewn yr amgylchedd dysgu os ydynt yn teimlo bod angen tawelu'r meddwl cyn ailafael yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol mewn gwersi ac amseroedd egwyl yn egnïol a brwdfrydig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda â rhieni a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r gymdeithas rhieni a chyfeillion yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi'r ysgol drwy gynnal ystod o weithgareddau buddiol i godi arian i gefnogi dysgu eu plant yn yr ysgol.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/06/2025